**Cofnodion Cyfarfod o GYNGOR SIR CEREDIGION**
**a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda**
**Ddydd Iau, 21ain Hydref, 2021 AC A AILALWYD DDYDD Gwener, 22 Hydref 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, John Adams-Lewis, Gareth Davies, Bryan Davies, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Steve Davies, Lloyd Edwards, Elizabeth Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gwyn James, Gareth Lloyd, Dai Mason, Catrin Miles, Dan Potter, Ray Quant MBE, Wyn Thomas, Alun Williams ac Ivor Williams

(2.00 - 4.35 pm)
(ar achlysur ailalw'r cyfarfod 12.30pm – 12.50pm)

**Gweithdrefn**
Yn absenoldeb Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, cadeiriwyd y cyfarfod gan Is-gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Is-gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies a chadarnhawyd nad oedd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu.

1 **Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Paul Hinge, Maldwyn Lewis, Hag Harris, Alun Lloyd Jones, Lyndon Lloyd MBE, Rowland Rees-Evans, John Roberts, Mark Strong, Lynford Thomas a Matthew Woolfall Jones

2 **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
Ni ddatgelwyd unrhw fuddiannau

3 **Materion Personol**
Nid oedd unrhyw faterion personol

4 **EITEM EITHRIEDIG**
Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda (Papur B) i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso'r Prawf Budd Cyhoeddus, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i aelodau ystyried a oedd y cyhoedd a'r wasg i'w heithrio o'r cyfarfod, wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod wrth ystyried eitem 5 isod, yn seiliedig ar y ffaith fod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid, at ei gilydd, ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg.

Cadarnhaodd y Cadeirydd na fyddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu yn ystod eitem 5 isod.

**5** **Swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol**

Gwrandawodd y Cyngor ar gyflwyniadau gan yr ymgeiswyr hynny a roddwyd ar y rhestr fer i lenwi swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol a gwrandawyd arnynt hefyd yn ymateb i gwestiynau penodol. Darparwyd adborth hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rhestr Fer a'r Prif Weithredwr.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyflog a fyddai'n cael ei gynnig. Nodwyd bod y canllaw yn nogfen Llywodraeth Cymru "Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol" yn argymell rhoi cyfle i'r Cyngor bleidleisio ar becynnau cyflog £100,000 neu drosodd.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd ar gyflog o £97,294, sef y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**PENDERFYNODD** y Cyngor fyfyrio ar y cyfweliadau dros nos ac ailymgynnull am 12.30pm, ddydd Gwener, 22 Hydref 2021.

**Ailalwyd y cyfarfod ddydd Gwener, 22 Hydref 2021 drwy fideogynadledda.**

**Gweithdrefn**

Atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyhoedd a'r wasg i gael eu heithrio tra oedd yr eitem isod yn cael ei thrafod, yn seiliedig ar y ffaith bod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid, at ei gilydd, ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg.

Yn dilyn pleidlais gudd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd i Mr James Starbuck.

Yna ailymunodd yr ymgeisydd llwyddiannus â'r cyfarfod ac yn dilyn y cynnig a wnaed iddo, derbyniodd Mr James Starbuck y swydd ar gyflog o £97,294, sef y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2022 neu cyn gynted â phosibl wedi hynny ac yn amodol ar y camau angenrheidiol cyn cyflogi.

Yna, gwahoddwyd y cyhoedd a'r wasg i ymuno â'r cyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hawl bellach gan y cyhoedd a'r wasg i ymuno â'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd i Mr. James Starbuck gael cynnig y swydd ac iddo ei derbyn, gan ddechrau ar bwynt cynyddrannol cyntaf graddfa gyflog y Cyfarwyddwr Corfforaethol, sef £97,294, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2022 neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 25 Tachwedd 2021**

**CADEIRYDD:** ______________